Neuadd y Sir
Y Rhadyr
Brynbuga
NP15 1GA

Dydd Llun, 12 Chwefror 2024

**Hysbysiad a gyfarfod**

# Pwyllgor Perfformiad a Throsolwg

## Dydd Mawrth, 20fed Chwefror, 2024 at 10.00 am, Council Chamber, County Hall, The Rhadyr USK

Nodwch y cynhelir rhag gyfarfod 30 munud cyn dechrau'r cyfarfod ar gyfer aelodau'r pwyllgor

.

# AGENDA

| Item No | Item | Pages |
|---|---|---|
| 1. | **Ymddiheuriadau am absenoldeb** | |
| 2. | **Datganiadau o Fuddiant** | |
| 3. | **Fforwm Agored i'r Cyhoedd**<br><br>**Canllawiau ~ Fforwm Agored Cyhoeddus y Pwyllgor Dethol**<br><br>Mae ein cyfarfodydd Pwyllgor Dethol yn cael eu ffrydio'n fyw a bydd dolen i'r ffrwd fyw ar gael ar dudalen gyfarfod gwefan Cyngor Sir Fynwy<br><br>Os hoffech rannu eich barn ar unrhyw gynigion sy'n cael eu trafod gan Bwyllgorau Dethol, gallwch gyflwyno eich sylwadau drwy ddefnyddio'r ffurflen hon<br><br>• Rhannwch eich barn drwy lanlwytho ffeil fideo neu sain (uchafswm o 4 munud); neu<br><br>• Cyflwynwch sylwadau ysgrifenedig (drwy Microsoft Word, uchafswm o 500 gair)<br><br>Bydd angen i chi gofrestru ar gyfer cyfrif Fy Sir Fynwy er mwyn cyflwyno'r ymateb neu ddefnyddio eich manylion mewngofnodi os ydych wedi cofrestru o'r blaen. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno sylwadau i'r Cyngor yw 5pm dri diwrnod gwaith clir cyn y cyfarfod. Os bydd y sylwadau a dderbynnir yn fwy na 30 munud, bydd detholiad o'r rhain, yn seiliedig ar thema, yn cael eu rhannu yng nghyfarfod y Pwyllgor Dethol. Bydd yr holl sylwadau a dderbynnir ar gael i gynghorwyr cyn y cyfarfod.<br><br>Os hoffech fynychu un o'n cyfarfodydd i siarad dan y Fforwm Agored i'r Cyhoedd, bydd angen i chi roi tri diwrnod o hysbysiad i ni drwy gysylltu â Scrutiny@monmouthshire.gov.uk. Y cadeirydd sy'n penderfynu faint o amser a roddir i bob aelod o'r cyhoedd i siarad, ond i'n galluogi i roi cyfle i nifer o siaradwyr, gofynnwn nad yw cyfraniadau yn hirach na 3 munud.<br><br>Os hoffech awgrymu pynciau i un o'n Pwyllgorau Dethol graffu arnynt yn y dyfodol, gwnewch hynny drwy e-bostio Scrutiny@monmouthshire.gov.uk | |
| **4.** | **Monitro'r Gyllideb Mis 9 - Craffu ar y sefyllfa gyllidebol (refeniw a chyfalaf) ar gyfer gwasanaethau sy'n dod o fewn cylch gwaith y pwyllgor ym Mis 9.** | 1 - 56 |
| **5.** | **Perfformiad Arholiadau - Craffu ar y data perfformiad arholiadau diweddaraf.** | 57 - 66 |
| **6.** | **Presenoldeb Ysgol - Craffu ar y data presenoldeb ysgol diweddaraf.** | 67 - 82 |
| **7.** | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu Perfformiad a Throsolwg a'r Rhestr Weithredu** | 83 - 88 |
| **8.** | **Rhaglen Waith y Cyngor a'r Cabinet** | 89 - 108 |
| **9.** | **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30ain Ionawr 2024** | 109 - 114 |
| **10.** | **Cyfarfod Nesaf: 19eg Mawrth 2024** | |

**Paul Matthews**

**Prif Weithredwr**

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL
CYNGOR SIR FYNWY

MAE CYFANSODDIAD Y PWYLLGOR FEL A GANLYN:

County Councillor Jill Bond, West End;, Welsh Labour/Llafur Cymru
County Councillor Alistair Neill, Gobion Fawr;, Welsh Conservative Party
County Councillor Paul Pavia, Mount Pleasant;, Welsh Conservative Party
County Councillor Peter Strong, Rogiet;, Welsh Labour/Llafur Cymru
County Councillor Ann Webb, St Arvans;, Welsh Conservative Party
County Councillor Laura Wright, Grofield;, Welsh Labour/Llafur Cymru
County Councillor Rachel Buckler, Devauden;, Welsh Conservative Party
County Councillor Catherine Fookes, Town;, Welsh Labour/Llafur Cymru
County Councillor Meirion Howells, Llanbadoc & Usk;, Independent

## Gwybodaeth I'r Cyhoedd

**Mynediad i gopïau papur o agendâu ac adroddiadau**
Gellir darparu copi o'r agenda hwn ac adroddiadau perthnasol i aelodau'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfod drwy ofyn am gopi gan Gwasanaethau Democrataidd ar 01633 644219. Dylid nodi fod yn rhaid i ni dderbyn 24 awr o hysbysiad cyn y cyfarfod er mwyn darparu copi caled o'r agenda hwn i chi.

**Edrych ar y cyfarfod ar-lein**
Gellir gweld y cyfarfod ar-lein yn fyw neu'n dilyn y cyfarfod drwy fynd i www.monmouthshire.gov.uk neu drwy ymweld â'n tudalen Youtube drwy chwilio am MonmouthshireCC. Drwy fynd i mewn i'r ystafell gyfarfod, fel aelod o'r cyhoedd neu i gymryd rhan yn y cyfarfod, rydych yn caniatáu i gael eich ffilmio ac i ddefnydd posibl y delweddau a'r recordiadau sain hynny gan y Cyngor.

**Y Gymraeg** Mae'r Cyngor yn croesawu cyfraniadau gan aelodau'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Gofynnwn gyda dyledus barch i chi roi 5 diwrnod o hysbysiad cyn y cyfarfod os dymunwch siarad yn Gymraeg fel y gallwn ddarparu ar gyfer eich anghenion.

# Nodau a Gwerthoedd Cyngor Sir Fynwy

i ddod yn sir ddi-garbon, gan gefnogi lles, iechyd ac urddas i bawb ar bob cam o'u bywydau.

Amcanion rydym yn gweithio tuag atynt

- Lle teg i fyw lle mae effeithiau anghydraddoldeb a thlodi wedi'u lleihau;
- Lle gwyrdd i fyw a gweithio gyda llai o allyriadau carbon a gwneud cyfraniad cadarnhaol at fynd i'r afael â'r argyfwng yn yr hinsawdd a natur;
- Lle ffyniannus ac uchelgeisiol, lle mae canol trefi bywiog a lle gall busnesau dyfu a datblygu;
- Lle diogel i fyw lle mae gan bobl gartref maen nhw'n teimlo'n ddiogel ynddo;
- Lle cysylltiedig lle mae pobl yn teimlo'n rhan o gymuned ac yn cael eu gwerthfawrogi;
- Lle dysgu lle mae pawb yn cael cyfle i gyrraedd eu potensial.

**Ein gwerthoedd**

- **Bod yn agored:** anelwn fod yn agored ac onest i ddatblygu perthnasoedd ymddiriedus
- **Tegwch:** anelwn ddarparu dewis teg, cyfleoedd a phrofiadau a dod yn sefydliad a adeiladwyd ar barch un at y llall.
- **Hyblygrwydd:** anelwn fod yn hyblyg yn ein syniadau a'n gweithredoedd i ddod yn sefydliad effeithlon ac effeithiol.
- **Gwaith tîm:** anelwn gydweithio i rannu ein llwyddiannau a'n methiannau drwy adeiladu ar ein cryfderau a chefnogi ein gilydd i gyflawni ein nodau.
- **Caredigrwydd** – Byddwn yn dangos caredigrwydd i bawb yr ydym yn gweithio gyda nhw, gan roi pwysigrwydd perthnasoedd a’r cysylltiadau sydd gennym â’n gilydd wrth wraidd pob rhyngweithio.

# *Canllaw Cwestiynau Craffu Sir Fynwy*

| |
|---|
| 1. Pam mae'r Pwyllgor yn craffu ar hyn? (cefndir, materion allweddol)<br>2. Beth yw rôl y Pwyllgor a pha ganlyniad mae'r Aelodau am ei gyflawni?<br>3. A oes digon o wybodaeth i gyflawni hyn? Os nad oes, pwy allai ddarparu hyn?<br><br>- Cytuno ar y drefn holi a pha Aelodau fydd yn arwain<br>- Cytuno ar gwestiynau i swyddogion a chwestiynau i Aelod y Cabinet |
| **Cwestiynau'r Cyfarfod** |

| *Craffu ar Berfformiad* | *Craffu ar Bolisi* |
| --- | --- |
| 1. Sut mae perfformiad yn cymharu â'r blynyddoedd blaenorol? Ydy e’n well/yn waeth? Pam?<br><br>2. Sut mae perfformiad yn cymharu â chynghorau eraill/darparwyr gwasanaethau eraill? Ydy e'n well/yn waeth? Pam?<br><br>3. Sut mae perfformiad yn cymharu â thargedau gosodedig? Ydy e’n well/yn waeth? Pam?<br><br>4. Sut cafodd targedau perfformiad eu gosod? Ydyn nhw'n ddigon heriol/realistig?<br><br>5. Sut mae defnyddwyr gwasanaethau/y cyhoedd/partneriaid yn gweld perfformiad y gwasanaeth?<br><br>6. A fu unrhyw awdid ac archwiliadau diweddar? Beth oedd y canfyddiadau?<br><br>7. Sut mae'r gwasanaeth yn cyfrannu at wireddu amcanion corfforaethol?<br><br>8. A yw gwelliant/dirywiad mewn perfformiad yn gysylltiedig i gynnydd/ostyngiad mewn adnodd?<br>Pa gapasiti sydd yna i wella? | 1. Ar bwy mae’r polisi yn effeithio ~ yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol? Pwy fydd yn elwa fwyaf/leiaf?<br><br>2. Beth yw barn defnyddwyr gwasanaeth /rhanddeiliaid? Pa ymgynghoriad gafodd ei gyflawni? A wnaeth y broses ymgynghori gydymffurfio ag Egwyddorion Gunning?<br>A yw rhanddeiliaid yn credu y bydd yn sicrhau’r canlyniad a ddymunir?<br><br>3. Beth yw barn y gymuned gyfan – safbwynt y ‘trethdalwr’?<br><br>4. Pa ddulliau a ddefnyddiwyd i ymgynghori â’r rhanddeiliaid? A oedd y broses yn galluogi pawb â chyfran i ddweud eu dweud?<br><br>5. Pa ymarfer ac opsiynau sydd wedi eu hystyried wrth ddatblygu/adolygu'r polisi hwn? Pa dystiolaeth sydd i hysbysu beth sy'n gweithio? A yw'r polisi yn ymwneud â maes lle mae diffyg ymchwil cyhoeddedig neu dystiolaeth arall?<br><br>6. A yw'r polisi'n ymwneud â maes lle ceir anghydraddoldebau hysbys?<br><br>7. A yw’r polisi hwn yn cyd-fynd â'n hamcanion corfforaethol, fel y'u diffinnir yn ein cynllun corfforaethol? A yw'n cadw at ein Safonau Iaith Gymraeg?<br><br>8. A gafodd yr holl ddatblygu cynaliadwy, y goblygiadau cydraddoldeb a diogelu perthnasol eu hystyried? |

| | |
|---|---|
| | Er enghraifft, beth yw'r gweithdrefnau sydd angen bod ar waith i amddiffyn plant?<br><br>9. Faint fydd y gost hon i'w gweithredu a pha ffynhonnell ariannu sydd wedi'i nodi?<br><br>10. Sut fydd perfformiad y polisi yn cael ei weithredu a'r effaith yn cael ei gwerthuso? |

**Cwestiynau Cyffredinol:**

*Grymuso Cymunedau*

- Sut ydym ni'n cynnwys cymunedau lleol a'u grymuso i ddylunio a darparu gwasanaethau i gyd-fynd ag angen lleol?
- A ydym ni'n cael trafodaethau rheolaidd gyda chymunedau am flaenoriaethau'r gwasanaeth a pha lefel o wasanaeth y gall y cyngor fforddio ei ddarparu yn y dyfodol?
- A yw'r gwasanaeth yn gweithio gyda dinasyddion i egluro rôl gwahanol bartneriaid wrth ddarparu gwasanaeth a rheoli disgwyliadau?
- A oes fframwaith a phroses gymesur ar waith ar gyfer asesu perfformiad ar y cyd, gan gynnwys o safbwynt dinesydd, ac a oes gennych chi drefniadau atebolrwydd i gefnogi hyn?
- A oes Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi'i gynnal? Os felly a all yr Arweinydd a'r Cabinet /Uwch Swyddogion roi copïau i'r Aelodau ac eglurhad manwl o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EQIA) a gynhaliwyd mewn perthynas â'r cynigion hyn?
- A all yr Arweinydd a'r Cabinet/Uwch Swyddogion sicrhau aelodau bod y cynigion hyn yn cydymffurfio â deddfwriaeth Cydraddoldeb a Hawliau Dynol? A yw'r cynigion yn cydymffurfio â Chynllun Cydraddoldeb Strategol yr Awdurdod Lleol?

*Galwadau'r Gwasanaeth*

- Sut fydd newid polisi a deddfwriaeth yn effeithio ar y ffordd mae'r cyngor yn gweithredu?
- A ydym ni wedi ystyried demograffeg ein cyngor a sut bydd hyn yn effeithio ar ddarparu gwasanaethau a chyllid yn y dyfodol?
- A ydych chi wedi adnabod ac ystyried y tueddiadau tymor hir a allai effeithio ar eich maes gwasanaeth, pa effaith allai'r tueddiadau hyn ei chael ar eich gwasanaeth/allai eich gwasanaeth ei gael ar y tueddiadau hyn, a beth sy'n cael ei wneud mewn ymateb?

*Cynllunio Ariannol*

- A oes gennym ni gynlluniau ariannol canolig a hirdymor cadarn yn eu lle?
- A ydym ni'n cysylltu cyllidebau â chynlluniau a chanlyniadau ac adrodd yn effeithiol ar y rhain?

*Gwneud arbedion a chynhyrchu incwm*

- A oes gennym ni'r strwythurau cywir ar waith i sicrhau bod ein dulliau effeithlonrwydd, gwelliant a thrawsnewid yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau'r arbedion mwyaf posibl?
- Sut ydym ni'n gwneud y mwyaf o incwm? A ydym ni wedi cymharu polisïau eraill y cyngor

i sicrhau'r incwm mwyaf posibl ac wedi ystyried yn llawn y goblygiadau ar ddefnyddwyr gwasanaeth?

- A oes gennym ni gynllun gweithlu sy'n ystyried capasiti, costau, a sgiliau'r gweithlu gwirioneddol yn erbyn y gweithlu a ddymunir?

*Cwestiynau i'w gofyn o fewn blwyddyn i'r penderfyniad:*

- A gafodd canlyniadau arfaethedig y cynnig eu cyflawni neu a oedd canlyniadau eraill?
- A oedd yr effeithiau wedi'u cyfyngu i'r grŵp yr oeddech chi ar y dechrau yn meddwl fyddai wedi cael ei effeithio h.y. pobl hŷn, neu a gafodd eraill eu heffeithio e.e. pobl ag anableddau, rhieni â phlant ifanc?
- A yw'r penderfyniad yn dal i fod y penderfyniad cywir neu a oes angen gwneud addasiadau?

| **Cwestiynau i'r Pwyllgor ar ddiwedd y cyfarfod …** |
| --- |
| A oes gennym ni'r wybodaeth angenrheidiol i ffurfio casgliadau/i wneud argymhellion i'r pwyllgor gwaith, cyngor, partneriaid eraill? Os nad oes, a oes angen i ni:<br>(i) Ymchwilio i'r mater yn fwy manwl?<br>(ii) Gael rhagor o wybodaeth gan dystion eraill - Aelod o'r Bwrdd Gweithredol, arbenigwr annibynnol, aelodau o'r gymuned, defnyddwyr gwasanaeth, cyrff rheoleiddio…<br>Cytuno ar gamau pellach sydd i'w cymryd o fewn amserlen/adroddiad monitro yn y dyfodol. |